



Arferion cynadleddau amddiffyn plant yn ystod COVID-19

Cwestiynau arolwg ar-lein (ymgyngoriad cyflym Medi–Hydref 2020)



Ynglŷn â'r arolwg

Mae cynadleddau amddiffyn plant yn gam allweddol o'r system amddiffyn plant yng Nghymru a Lloegr, pan fydd teuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn dod at ei gilydd i amlygu a mynd i'r afael â phryderon difrifol. Ers dechrau'r pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau symud cysylltiedig, bu'n rhaid i weithwyr proffesiynol a theuluoedd addasu'n gyflym i gynadleddau o bell neu gynadleddau lle gweithredir mesurau cadw pellter cymdeithasol. Comisiynodd Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield waith ymchwil i ymchwilio i oblygiadau ymarferol y newidiadau hyn. Mae'r cwestiynau arolwg hyn yn rhan o'r broses ymchwil, a gynhaliwyd rhwng mis Medi a mis Hydref 2020.

Mae canfyddiadau'r gwaith ymchwil ar gael yn: www.nuffieldfjo.org.uk/resource/child-protection-conference-practice-covid-19

Awduron

- Mae Dr Mary Baginsky yn Uwch Gymrawd Ymchwil yn Uned Ymchwil y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol NIHR yng Ngholeg y Brenin, Llundain.
- Mae Jude Eyre yn Gyfarwyddwr Cyswllt Strategaeth a Chyflawni yn Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.
- Mae Alice Roe yn Ymchwilydd yn Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Diolchiadau

Hoffai'r awduron ddiolch i'r holl unigolion ac asiantaethau a roddodd gymorth yn ystod y cam datblygu ac a helpodd i ledaenu'r arolwg. Yn arbennig:

ATD Fourth World; y Grŵp Hawliau'r Teulu; Home-Start Sutton; y Gymdeithas Swyddogion Adolygu Annibynnol Genedlaethol (NAIRO); y Bartneriaeth Rheolwyr Swyddogion Adolygu Annibynnol Genedlaethol; Dechreuadau Newydd; Dr Sam Clutton; Sally Ann Jenkins; Annie Raff; Karen Squillino; Pam Miller; Dan Jones; Andy Bilson; a Tracey Fox.

Hoffem hefyd ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr arolwg a chyfweliadau na allwn eu henwi am resymau cyfrinachedd.

Ynglŷn ag Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield

Nod Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yw cefnogi'r penderfyniadau gorau posibl i blant trwy wella'r defnydd o ddata a thystiolaeth ymchwil yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr. Gan ymdrin â chyfraith gyhoeddus a phreifat, mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yn darparu gwaith dadansoddi ac ymchwil hygyrch i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y llysoedd teulu.

Sefydlwyd Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield gan Sefydliad Nuffield, sef ymddiriedolaeth elusenol annibynnol sy'n ceisio hybu lles cymdeithasol. Mae'r Sefydliad yn ariannu ymchwil sy'n llywio polisi cymdeithasol, a hynny'n bennaf ym meysydd addysg, lles, a chyfiawnder. Mae hefyd yn ariannu rhaglenni myfyrwyr er mwyn i bobl ifanc ddatblygu sgiliau a hyder mewn dulliau meintiol a gwyddonol. Sefydliad Nuffield yw sylfaenydd a chyd-ariannwr Sefydliad Ada Lovelace a Chyngor Biooeseg Nuffield.

Mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield wedi ariannu'r prosiect hwn, ond safbwyntiau'r awduron yw'r rhai a fynegir ac nid, o reidrwydd, rhai Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield na'r Sefydliad.

Rhagfyr 2020.

Cynnwys

Cwestiynau arolwg	1
Pob gweithiwr proffesiynol	1
Gweithwyr cymdeithasol a chadeiryddion cynadleddau	3
Rhieni ac aelodau'r teulu	4

Cwestiynau arolwg

Pob gweithiwr proffesiynol

O ddechrau cyfyngiadau COVID-19 ar 23 Mawrth:

1. A ydych chi wedi mynychu cynhadledd amddiffyn plant ers i'r cyfyngiadau symud fod ar waith (o 23 Mawrth 2020)?
 - a. Ydw
 - b. Nac ydw¹
 - c. Nac ydw, oherwydd ataliwyd cynadleddau amddiffyn plant dros dro¹
2. Nodwch sawl cynhadledd amddiffyn plant rydych wedi'i mynychu.
 - a. 0–3
 - b. 4–6
 - c. 7–10
 - ch. 10–20
 - d. 20+
3. Ym mha awdurdod lleol y mynychoch chi'r gynhadledd amddiffyn plant, neu ym mha un rydych wedi mynychu'r nifer fwyaf o gynadleddau?
Nid ydym yn bwriadu enwi unrhyw awdurdodau lleol yn yr adroddiad. Cwestiwn dewisol yw hwn i'n galluogi i ddeall pa mor bell y mae'r arolwg wedi cyrraedd yn genedlaethol.
4. O ran cynadleddau amddiffyn plant, a oedd:
 - a. Pob un wedi'i chynnal wyneb yn wyneb
 - b. Pob un wedi'i chynnal trwy fideo
 - c. Pob un wedi'i chynnal dros y ffôn
 - ch. Cymysgedd o rai cynadleddau wyneb yn wyneb a rhai trwy fideo/dros y ffôn
 - d. Hybrid – gyda rhai cyfranogwyr yn yr un ystafell ac eraill yn ymuno trwy fideo a/neu dros y ffôn
 - dd. Arall – rhowch fanylion
5. Yn eich profiad chi, a oedd y trefniadau yr un fath ar gyfer:
 - a. Cynadleddau adolygu amddiffyn plant
 - b. Grwpiau craidd
6. Os oedd y trefniadau'n wahanol, rhowch fanylion.
7. A oedd/oes unrhyw fanteision i chi o ran y ffordd y cynhaliwyd cynadleddau/y ffordd y mae cynadleddau'n parhau i gael eu cynnal? (OES/NAC OES)
8. Rhowch ragor o fanylion.

¹ Os dewisodd yr ymatebwr 'Nac ydw', ni chwblhaodd weddill yr arolwg. Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr wneud sylwadau ar unrhyw faterion yn ymwneud ag arferion cynadleddau amddiffyn plant yn ystod COVID-19.

9. Yn eich barn chi, a oedd/oes unrhyw fanteision i rieni/aelodau'r teulu o ran y ffordd y cynhaliwyd cynadleddau/y ffordd y mae cynadleddau'n parhau i gael eu cynnal? (OES/NAC OES)
10. Rhowch ragor o fanylion.
11. A oedd/oes unrhyw anfanteision i chi o ran y ffordd y cynhaliwyd cynadleddau/y ffordd y mae cynadleddau'n parhau i gael eu cynnal? (OES/NAC OES)
12. Rhowch ragor o fanylion.
13. Yn eich barn chi, a oedd/oes unrhyw anfanteision i rieni/aelodau'r teulu o ran y ffordd y cynhaliwyd cynadleddau/y ffordd y mae cynadleddau'n parhau i gael eu cynnal? (OES/NAC OES)
14. Rhowch ragor o fanylion.
15. A wnaed unrhyw drefniadau penodol i helpu rhieni i allu ymuno â chynadleddau a gynhaliwyd trwy fideo neu dros y ffôn? (DO/NADDO)
16. Rhowch ragor o fanylion am y trefniadau hyn a safbwyntiau ar sut oeddent yn gweithio.
17. Sut, os o gwbl, y bodlonwyd unrhyw anghenion ieithyddol rhieni ac aelodau'r teulu?
18. Sut, os o gwbl, y bodlonwyd anghenion rhieni neu aelodau'r teulu ag anabledau, gan gynnwys anabledau dysgu?
19. A wnaed trefniadau i'r plentyn gymryd rhan neu i'w safbwyntiau gael eu hystyried yn y gynhadledd? (DO/NADDO)
20. Os **DO**: Beth oedd y trefniadau hyn?
21. A sylwoch chi ar unrhyw wahaniaethau o ran presenoldeb gweithwyr proffesiynol o gymharu â chynadleddau amddiffyn plant cyn i gyfyngiadau COVID-19 gael eu rhoi ar waith? (DO/NADDO)
22. Os **DO**: Rhowch ragor o fanylion.
23. Yn eich barn chi, a effeithiwyd ar gynlluniau amddiffyn plant mewn unrhyw ffordd yn ystod cyfnod COVID-19? (DO/NADDO)
24. Os **DO**: Rhowch ragor o fanylion.
25. At ei gilydd, a ydych chi'n credu bod unrhyw ffyrdd newydd o weithredu yn gwneud cynadleddau'n well neu'n waeth nag yr oeddent cyn cyfyngiadau COVID-19? Esboniwch eich ateb.
26. Rhannwch unrhyw wybodaeth neu sylwadau ychwanegol ynglŷn â'ch profiad o gynadleddau amddiffyn plant yn ystod COVID-19.
27. Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio eich ethnigrwydd orau?
Mae'r categorïau a'r disgrifiadau wedi'u seilio ar Gyfrifiad Lloegr 2011. Os nad ydych eisiau datgelu eich ethnigrwydd, dewiswch 'Gwell gennyf beidio ag ateb'.
28. A ydych chi'n ystyried bod gennyhych anabled?

Gweithwyr cymdeithasol a chadeiryddion cynadleddau

O ddechrau cyfyngiadau COVID-19 ar 23 Mawrth:

29. Sawl diwrnod cyn y gynhadledd y rhannodd gweithwyr proffesiynol adroddiadau â'i gilydd? *Os gwnaethoch fynychu nifer o gynadleddau yn ystod y cyfnod hwn, rhowch gyfartaledd bras.*
- a. 1 diwrnod
 - b. 2 ddiwrnod
 - c. 3–7 diwrnod
 - ch. 8–13 diwrnod
 - d. 14+ diwrnod
 - dd. Ddim yn gwybod
30. Sawl diwrnod cyn y gynhadledd y rhannwyd adroddiadau â rhieni? *Os gwnaethoch fynychu nifer o gynadleddau yn ystod y cyfnod hwn, rhowch gyfartaledd bras.*
- a. 1 diwrnod
 - b. 2 ddiwrnod
 - c. 3–7 diwrnod
 - ch. 8–13 diwrnod
 - d. 14+ diwrnod
 - dd. Ddim yn gwybod
31. Sut rhannwyd adroddiadau â rhieni? *Dewiswch bob un sy'n berthnasol.*
- a. Trwy'r post
 - b. Trwy e-bost
 - c. Danfon â llaw
 - ch. Arall – rhowch fanylion
32. A oedd trefniadau ar waith i'r cadeirydd gyfarfod â'r teulu cyn y gynhadledd i sicrhau eu bod yn deall diben a phroses y gynhadledd a'u rôl ynddi?
33. A oedd trefniadau i gytuno ar bresenoldeb a chyfranogiad aelodau'r teulu, gan gynnwys eithriadau, lle y bo'r angen?
34. Yn eich barn chi, a fu'n bosibl cynnal cyfranogiad rhieni mewn cynadleddau amddiffyn plant i'r un graddau â chyn cyfyngiadau COVID-19? (DO/NADDO)
35. Os **NA**: Disgrifiwch unrhyw effeithiau o ganlyniad i hyn, gan gynnwys unrhyw effaith ar wneud penderfyniadau a chynllunio.
36. A wnaed unrhyw drefniadau ar gyfer gofal plant fel y gallai rhieni/gofalwyr gymryd rhan (DO/NADDO)
37. Os **DO**: Rhowch ragor o fanylion am y trefniadau hyn.
38. A fu amgylchiadau mewn cynhadledd amddiffyn plant ers i gyfyngiadau symud COVID-19 fod ar waith lle nad oedd digon o wybodaeth i wneud penderfyniadau am gynllun?

39. Yn gyffredinol, a yw argaeledd gwasanaethau yn ystod COVID-19 wedi effeithio ar gynlluniau amddiffyn plant?
40. Rhowch ragor o fanylion am sut yr effeithiwyd ar gynlluniau amddiffyn plant, os yw'n berthnasol.

Rhieni ac aelodau'r teulu

41. Ers dechrau'r cyfyngiadau o ganlyniad i COVID-19, a ydych chi wedi mynychu:
- a. Cynhadledd amddiffyn plant gychwynnol (y gynhadledd gyntaf lle y penderfynir p'un a ddylai plentyn gael cynllun amddiffyn plant)
 - b. Cynhadledd adolygu amddiffyn plant (cynhadledd ddilynol i weld sut mae'r cynllun amddiffyn plant yn mynd yn ei flaen)
 - c. Y ddwy
 - ch. Ddim yn siŵr pa fath o gynhadledd ydoedd
42. A oedd hyn fel:
- a. Mam
 - b. Tad
 - c. Nain neu daid / Mam-gu neu dad-cu
 - ch. Arall – rhowch fanylion
43. Ym mha awdurdod lleol y digwyddodd y gynhadledd?
44. A gawsoch chi gyfle i siarad ag unrhyw rai o'r bobl ganlynol i'ch helpu i baratoi ar gyfer y gynhadledd? *Dewiswch bob un sy'n berthnasol.*
- a. Gweithiwr cymdeithasol y plentyn/plant
 - b. Cadeirydd y gynhadledd amddiffyn plant
 - c. Eiriolwr
 - ch. Siaradais i ddim â neb
 - d. Arall – rhowch fanylion
45. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am hyn?
46. A gawsoch chi gopi o adroddiad y gweithiwr cymdeithasol cyn mynychu'r gynhadledd? (DO/NADDO)
- Mae cwestiynau 47 a 48 ar gyfer y rhai a atebodd DO i dderbyn copi o'r adroddiad yn unig*
47. Sut cafodd yr adroddiad ei anfon atoch?
- a. Â llaw
 - b. Trwy'r post
 - c. Trwy e-bost
 - ch. Arall – rhowch fanylion
48. A gawsoch chi gyfle i ddarllen yr adroddiad a/neu ei drafod gyda'r gweithiwr cymdeithasol cyn y gynhadledd (DO/NADDO)
49. Sut cafodd y gynhadledd ei chynnal?
- a. Wyneb yn wyneb gyda phawb yn bresennol mewn ystafell

- b. Roeddech chi a phawb arall wedi cysylltu trwy fideo
 - c. Roedd cyfranogwyr eraill wedi cysylltu trwy fideo ac roeddech chi ar ffôn
 - ch. Ymunodd bawb dros y ffôn
 - d. Roeddech chi mewn ystafell gyda gweithiwr cymdeithasol ac ymunodd bawb arall drwy fideo/dros y ffôn
 - dd. Roeddech chi mewn ystafell gyda chadeirydd y gynhadledd ac ymunodd bawb arall drwy fideo/dros y ffôn
 - e. Arall – rhowch fanylion
50. A oeddech chi'n teimlo eich bod yn gallu deall beth oedd yn digwydd yn y gynhadledd? (OEDDWN/NAC OEDDWN)
51. A roddwyd cyfle i chi ddweud eich dweud? (DO/NADDO)
52. Ai'r un gweithiwr cymdeithasol y buoch yn gweithio gydag ef o'r blaen oedd y gweithiwr cymdeithasol a fynychodd y gynhadledd? (IE/NA)
53. At ei gilydd, a wnaeth y ffordd y cymeroch ran yn y gynhadledd (e.e. trwy fideo, dros y ffôn) effeithio ar sut oeddech yn gallu cymryd rhan? (DO/NADDO)
54. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am hyn?
55. A wnaeth y plentyn neu'r plant yr oedd y gynhadledd yn ymwneud ag ef/â nhw ymuno â'r gynhadledd? (DO/NADDO)
56. A gafodd safbwyntiau'r plentyn/plant eu hysgrifennu a'u rhannu gan gadeirydd y gynhadledd? (DO/NADDO)
57. A eglurwyd wrthyh chi beth fyddai'n digwydd nesaf? (DO/NADDO)
58. A yw'r plentyn/plant yn destun cynllun amddiffyn plant? (YDY/YDYNT / NAC YDY/NAC YDYNT)

Mae cwestiynau 59–61 yn berthnasol yn unig i'r rhai hynny y mae eu plentyn yn destun cynllun. Cyfeiriwyd pob ymatebwr arall at gwestiwn 62.

59. A gawsoch chi gopi o'r cynllun amddiffyn plant ar ôl y gynhadledd gychwynnol a gadarnhaodd beth oedd i fod i ddiogel i gadw'r plentyn/plant yn ddiogel? (DO/NADDO)
60. Ers dechrau'r cynllun amddiffyn plant, a ydych chi wedi cael unrhyw wasanaethau yn gysylltiedig â'r cynllun gan eich awdurdod lleol (gofal cymdeithasol i blant)? (YDW/NAC YDW)
61. Sut mae'r gwasanaethau hyn wedi cael eu darparu i'ch teulu neu eu defnyddio gan eich teulu?
62. Rhannwch unrhyw wybodaeth neu sylwadau ychwanegol ynglŷn â'ch profiad o gynadleddau amddiffyn plant yn ystod COVID-19.
63. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich ethnigrwydd orau?

Mae'r categorïau a'r disgrifiadau wedi'u seilio ar Gyfrifiad Lloegr 2011. Os nad ydych eisiau datgelu eich ethnigrwydd, dewiswch 'Gwell gennyf beidio ag ateb'.

64. A ydych chi'n ystyried bod gennyh anabledd?